OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1534 (Cy.151)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2006

Wedi'u gwneud - -	*13 Mehefin 2006*
Yn dod i rym - -	*15 Mehefin 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod), gan gynnyws cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2006, deuant i rym ar 15 Mehefin 2006 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(**3**);

Diwygio'r Prif Reoliadau

3. Diwygir y Prif Reoliadau yn unol â rheoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau hyn.

4. Yn nhestun Cymraeg is-baragraff (b) o baragraff (1) o reoliad 5 (Gorfodi) mewnosoder y geiriau "neu'r awdurdod bwyd" ar ôl y geiriau "gan yr Asiantaeth".

5. Yn nhestun Cymraeg paragraff (9) o reoliad 13 (Dadansoddi etc samplau) rhodder y geiriau "rheoliad hwn" yn lle'r geiriau "Rheoliadau hyn".

(**1**) O.S. 2005/1971.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 2006/31 (Cy.5).